William Booth: 1829–1912

# Milwr da

**Ffyddlondeb / cryfder / dewrder**

Fyddwch chi'n hoffi clywed band yn chwarae? Efallai eich bod chi yn gallu chwythu utgorn neu drombôn. O gwmpas y Nadolig yn y dinasoedd mawr bydd band yn chwarae carolau. Fel arfer, band Byddin yr Iachawdwriaeth fydd yno. Mi fydd y chwaraewyr yn gwisgo dillad glas tywyll. Bydd dynion a merched yn chwarae yn y band. Mae'r stori hon yn sôn am sylfaenydd Byddin yr Iachawdwriaeth.

Yn ninas Nottingham, yn Lloegr, y cafodd William Booth ei fagu. Roedd ei deulu'n dlawd iawn. Pan oedd yn 15 oed dechreuodd gymryd diddordeb yn hanes Iesu Grist. Byddai'n darllen y Beibl bob dydd. Roedd William eisiau byw fel Iesu Grist. Roedd Iesu'n helpu'r tlawd a'r digartref. Felly, penderfynodd William fyw ei fywyd i helpu eraill. Priododd â Catherine ac aeth i fyw i Lundain. Yn y ddinas honno roedd pobl yn byw mewn tlodi mawr. Bu William a Catherine yn byw efo nhw ar y strydoedd.

Roedd William nid yn unig yn eu helpu, ond hefyd yn sôn am Iesu Grist wrth y bobl. Unwaith, pan oedd yn pregethu mewn pabell fawr, fe ddaeth corwynt o rywle a chwythu'r babell yn ddarnau mân. Ond roedd William yn benderfynol o ddal ati i bregethu a sôn am Iesu Grist. Byddai'n pregethu ar ochr y stryd, mewn hen gwt neu hyd yn oed ar lawr y ddawns. Am chwe blynedd bu'n sôn am Iesu a helpu'r bobl yn ninas Llundain. O'r diwedd, fe gafodd adeilad iddo'i hun. Roedd o mor falch!

"Catherine, mae gen i newydd da i ti!" meddai wrth ei wraig un gyda'r nos. "Rwy'n meddwl ein bod ni wedi cael adeilad, lle y gallwn ni bregethu, sôn am Iesu Grist a hefyd lle cawn ni ddod â phobl i mewn i gael rhyw fath o gysur."

Daeth gwên fawr dros wyneb Catherine. Roedd hithau hefyd yn rhannu llawenydd ei gŵr. Yn raddol roedd pobl yn dechrau gwrando ar yr hyn oedd gan William i'w ddweud. Roedd ef yn pregethu yn erbyn y drwg a welai bob dydd yn y ddinas. Doedd ef ddim yn hapus o weld plant yn gweithio am oriau hirion. Fe fydden nhw'n gweithio o bump o'r gloch y bore tan naw o'r gloch yr hwyr. Roedd hefyd yn teimlo bod pobl yn treulio gormod o'u hamser yn y tafarnau. Doedd perchnogion y tafarnau ddim yn hoffi clywed yr hyn oedd gan William Booth i'w ddweud.

"Mae'n rhaid i ni gau ceg y dyn yma," meddai un o'r perchnogion, "mae hwn yn gwneud drwg mawr i ni. Beth am i rai ohonoch chi fechgyn cryfion fynd i ymosod arno, ac os gwnewch chi hynny fe gewch chi ddiod am ddim yn y dafarn yma."

Felly y bu. Roedd rhywun yn ymosod ar William Booth yn gyson. Bu Catherine, ei wraig, yn wael am gyfnod hir. Yn ystod y cyfnod hwn bu William yn gofalu amdani ddydd a nos. Bob cyfle byddai'n ysgrifennu am ei hanesion efo'r bobl dlawd. Ar ôl i'w wraig farw, cyhoeddodd lyfr yn dweud sut roedd y bobl dlawd yn byw. Doedd y bobl gyffredin ddim yn gwybod am gyflwr y bobl dlawd. Dechreuodd yr arian lifo i mewn.

Derbyniodd £100,000. Roedd hyn yn arian mawr yr adeg hynny. Bellach roedd yn gallu rhoi cartrefi i'r digartref. Roedd "byddin" William Booth yn dechrau gorymdeithio trwy ddinasoedd a threfi Prydain i gyd. Byddai pobl yn eu hadnabod yn ôl eu gwisg, eu band a hefyd eu bod yn "filwyr da" i Iesu Grist. Erbyn heddiw, mae aelodau o Fyddin yr Iachawdwriaeth i'w gweld ym mhob rhan o'r byd.

"Ymgryfhewch yn yr Arglwydd ac yn nerth ei allu ef. Gwisgwch amdanoch holl arfogaeth Duw er mwyn i chwi fedru sefyll yn gadarn..."

Effesiaid 6:10-11

Diolch i Ti, O Dduw,
am bobl ddewr fel William Booth,
a ddywedodd:
Tra bydd merched yn wylo fe ymladdaf drostynt,
tra bydd plant yn newynu fe ymladdaf drostynt,
tra bydd dynion yn mynd i garchar fe ymladdaf drostynt.
Gwna finnau, Arglwydd, yn debyg i William Booth,
yn gwneud fy ngorau dros blant
sydd mewn angen.
Amen.

A ddylai eglwysi a chapeli Cymru ddilyn esiampl Byddin yr Iachawdwriaeth a mynd allan at y bobl?